

CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Y Cynghorydd H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Y Cyngorwyr N. Mackie a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg – Y Cyngorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.”

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Sivagnanam yn Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(c) Penodi Is-gadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd H. Williams yn Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(d) Ymddiheuriad am Absenoldeb –

Derbyniwyd hyn gan y Cynghorydd M. Lewis (sy'n cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

(e) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

(f) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(g) Datganiad o Gyfrifon heb eu Harchwilio Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024/25 (PC/SA151) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg. Paratowyd Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar gyfer 2024/25 yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) / Pwyllgor Cyngori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban) (y Cod). Roedd y Datganiad wedi'i gwblhau, a rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol y GRhR cyn yr archwiliad terfynol mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024/25, ac amlygodd y Rheolwr Gweithredol y pwyntiau allweddol i'r Pwyllgor. Roedd y Datganiad Cyfrifon yn destun Archwiliad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi a rhyddhau Datganiad Cyfrifon y GRhR i Archwilio Cymru.

Nododd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg y gallai fod angen ychydig o waith a gwiriadau pellach ar dabl 5 o'r adroddiad (sy'n ymwneud â'r cyfrifon rheoli a'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r dadansoddiad gwariant a chyllido) cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru (ond ni fyddai'n newid y cyfrifon yn sylweddol), y cytunodd y Pwyllgor iddynt, a byddai copi o hyn yn cael ei rannu â nhw maes o law.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Cydweithredol, wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Nodir cynnwys adroddiad Datganiad Cyfrifon Heb Archwiliad Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024/25, yn dilyn adolygiad gan y Cydbwyllgor.

(2) Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn cael ei gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 25 Mehefin 2025, gan alluogi cymeradwyaeth derfynol erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2025..

(3) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig 2024/25 i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cymeradwyo'r Datganiad Nas Archwiliwyd i Aelodau cyn y dyddiad cau.

(2&3) Er mwyn sicrhau cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

(h) Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024-25 (CAT) –

Roedd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (GRhR) yn gydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg a ddechreuodd ar 1 Mai, 2015 ac a oedd yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau Rheoleiddio ar draws y tri Awdurdod.

Roedd y Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth GRhR a Phennaeth Cyllid gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a fyddai, ar ôl ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, yn cael ei anfon ymlaen at y Cyngorau partner..

Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd, yn ystod 2024-25, fod y Gwasanaeth a Rennir wedi adfer perfformiad i raddau helaeth ar draws ei fetrigau traddodiadol ar ôl yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ffordd i fynd o hyd i glirio'r ôl-groniadau anochel mewn rhai meysydd o waith rhaglenedig o'r diwedd.

Adlewyrchodd yr adroddiad hefyd ar y gofynion ychwanegol a roddir ar y Gwasanaeth, er enghraifft, trwy ddisgwyliad y Llywodraeth y byddai meysydd newydd o ddeddfwriaeth yn cael eu gorfodi er nad oedd unrhyw gyllid newydd. Hyn ar adeg pan oedd y Gwasanaeth wedi gweithredu arbediad cyllideb gwasanaethau craidd pellach o 3% wrth fynd i mewn i flwyddyn ariannol 2024-25.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, ar y cyd â'i chydweithwyr, sef y tri Rheolwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, a'r Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg. Roeddent yn cwmpasu sawl maes allweddol, cyflawniadau a heriau i'r GRhR yn ystod 2024/25, gan gynnwys y gyllideb, lefelau absenoldeb salwch, recriwtio a chadw staff a gwasanaethau / perfformiad allweddol, yn amrywio o fwyd a safonau masnach (gan gynnwys gorfodi ac erlyniadau) i lygredd sŵn ac aer, trwyddedu, cartrefi gwag, diogelwch adeiladau, lles anifeiliaid, diogelu'r rheini sy'n agored i niwed, ymysg ystod eang o wasanaethau a chyfrifoldebau.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor sawl cwestiwn, a gwneud sylwadau ar yr adroddiad, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd y Cyngorydd Michael am dynnu sylw at y gwaith da a wnaed gan y GRhR o ran recriwtio a chadw, gan gynnwys y cynllun prentisiaeth rheoliadol.
- Gofynnodd y Cadeirydd am y data salwch, ac am ragor o fanylion ynglŷn â'r gostyngiad mewn salwch byrdymor. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir nad oedd unrhyw dueddiadau penodol wedi'u nodi sy'n sail i hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ond gallai rhai ffactorau fod wedi helpu, megis trefniadau gwaith hyblyg, gyda chyfuniad o weithio gartref, yn y swyddfa ac ar y safle pan fo'n briodol, a allai fod yn helpu i atal achosion o salwch byrdymor.
- Adleisiodd y Cadeirydd ac Aelodau eraill y Pwyllgor y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, a thynnu sylw at y gwaith da a'r ddarpariaeth gwasanaeth a wnaed gan swyddogion a staff y GRhR, fel y dangosir yn yr adroddiad gyda'i

- adborth, ei ganfyddiadau a'i fesurau perfformiad cadarnhaol cyffredinol.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Mackie gwmpas eang ac estynedig y gwaith a wnaed gan y GRhR dan amgylchiadau heriol, a gofynnodd sut roedd y gwasanaeth yn gallu ymdopi â hyn mewn modd mor effeithiol. Atebodd y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Masnachol (GRhR) fod y gwasanaeth yn ffodus o gael gweithlu hynod brofiadol, hyfforddedig a phroffesiynol a oedd yn barod i ymgymryd â'r gwaith hwn ar ran y GRhR. Roedd y gwasanaeth yn anhygoel o fain o ran nifer y staff a gyflogai ac felly roedd cyflawniadau, darparu gwasanaethau'r GRhR ac ati yn ymwneud â gwaith caled ac ymroddiad ei staff. Byddai'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan yr Aelodau yn cael eu rhannu â staff y GRhR.
 - Cododd y Cadeirydd fater hylendid bwyd a'r gweithdrefnau arbennig (mae rheolau trwyddedu newydd yn berthnasol ledled Cymru ar gyfer Aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), Tatwio, ac ati), ac a oedd busnesau, yn enwedig rhai newydd, yn gorfod 'dechrau o'r dechrau', heb unrhyw syniad o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i lynu wrth y rhain, neu i'w gweithredu, gan olygu bod yn rhaid i'r GRhR dreulio amser yn esbonio'r broses iddynt. Atebodd y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Masnachol (GRhR) bod cynnydd mawr wedi bod mewn gweithgaredd entrepreneuriaidd oherwydd pandemig Covid-19, gyda mwy o bwyslais ar fusnesau cartref ac ar-lein, gyda rhai o'r rhain yn fwy gwybodus am y ddeddfwriaeth newydd a'r weithdrefn arbennig na busnesau newydd eraill. Roedd angen cefnogaeth bellach ar fusnesau o'r fath trwy'r GRhR ac, yn ei hanfod, roedd gan y gwasanaeth rôl ddeuol o feithrin a chefnogi'r economi leol i'w helpu i fod mor fywiog â phosib ac i sicrhau bod busnesau a mentrau'n cydymffurfio â'r fframweithiau cyfreithiol ac iechyd cyhoeddus fel bod preswylwyr ac ymwelwyr yn cael eu hamddiffyn ac yn ddiogel. Gwnaed hyn drwy arolygiad ac ymyrraeth y GRhR.
 - Roedd yr Is-gadeirydd am ddiolch i'r GRhR am ei ymdrechion, ei ffocws a'i lwyddiant o ran cartrefi gwag. Cyfeiriodd at y defnydd o wahanol offer sydd ar gael i'r GRhR ar y mater hwn, a oedd, ynghyd â chael tîm ymroddedig yn y maes hwn, wedi cael effaith wrth fynd i'r afael ag effeithiau negyddol yr eiddo hyn, megis denu ymddygiad gwrthgymdeithasol a chael ei weld fel 'baich' ar gymunedau lleol. Byddai'r Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth yn trosglwyddo sylwadau'r Is-gadeirydd i aelodau'r tîm perthnasol, gan ychwanegu bod y gwaith yn cynnwys cydweithrediad staff a rhanddeiliaid eraill, megis y gweithgor ar gyfer yr ardal hon h.y. ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
 - Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at agweddau lles anifeiliaid yr adroddiad a gofynnodd a oedd bridio cŵn yn anghyfreithlon wedi gweld unrhyw ostyngiad oherwydd ymdrechion y GRhR i fynd i'r afael â'r maes hwn. Atebodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Menter ac Arbenigol fod hwn yn ymarfer a arweinir gan wybodaeth, gyda mwy o adroddiadau ar y gweithgaredd hwn yn cael ei gwneud, ond yr her allweddol oedd gwirio adroddiadau neu gwynion o'r fath ac yna cael digon o dystiolaeth i allu cael a rhoi gwarant ar waith i weithredu yn erbyn bridwyr anghyfreithlon. Cafodd ei hysbysebu'n dda bod angen trwydded ar y bobl hynny sy'n bridio cŵn i wneud hynny dan reoliadau trwyddedu anifeiliaid, a byddai'r GRhR yn gwneud yr hyn y gallai o fewn yr adnoddau presennol oedd ganddo i fynd i'r afael â hyn. Roedd y Cynghorydd Mackie yn teimlo y dylai fod mwy o gyhoeddusrwydd ar drwyddedu a chyfrifoldebau bridwyr cŵn ynghylch hyn.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno diolch i'r tîm lles anifeiliaid am eu hymdrechion mewn amgylchiadau heriol a sut yr adlewyrchwyd hyn yn y gwobrau a'r anrhydeddau a dderbyniwyd ganddynt, a fyddai'n cael ei rhannu â nhw.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y gwaith ardderchog a wnaed gan y GRhR ynghylch ansawdd aer yng Nghaerdydd, yr oedd hi wedi ei weld yn uniongyrchol. O ran ansawdd aer, gofynnodd y Cadeirydd am y nifer gymharol uchel o leoliadau monitro ym Mro Morgannwg. Esboniodd y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Menter ac Arbenigol oherwydd natur wasgaredig aneddiadau a manau byw yn y Fro, fod angen lledaeniad ehangach o leoliadau monitro i fonitro ac asesu ansawdd aer yn briodol, yn wahanol i ardaloedd mwy trefol a dwys fel Caerdydd a oedd angen nifer llai o fonitorau.
- Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd bwysigrwydd sicrhau bod y bwyd y mae trigolion yn ei fwyta a'r awyr y maent yn ei hanadlu yn ddiogel ac adlewyrchwyd y blaenoriaethau allweddol hyn yn y gwaith da a wnaeth y GRhR.
- Awgrymodd y Cynghorydd Michael y dylai'r GRhR fod yn bresennol mewn digwyddiad a gynhelir gan Arglwydd Faer Caerdydd mewn cartref cŵn lleol ac iddyn nhw dynnu sylw at y gwaith hanfodol a wnaed ganddynt o ran lles anifeiliaid ac o ran cŵn.
- O ran erlyn twyll fasnachwyr, ac ati, a diogelu aelodau o'r cyhoedd sy'n agored i niwed yn ehangach, pwysleisiodd y Cynghorydd Mackie bwysigrwydd y GRhR a'r Cynghorau partner yn hysbysebu enghreifftiau o orfodi ac erlyn a gynhaliwyd, yn ogystal â'r gwaith da cyffredinol sy'n cael ei wneud gan y GRhR yn y maes hwn.
- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Cynghorau partner y GRhR anfon mwy o gyfathrebiadau i roi cyhoeddusrwydd, i hyrwyddo ac i hysbysu am gyflawniadau a gwaith lefel uwch neu fwy cyhoeddus y GRhR, ac ar y lefel is ynghylch gweithgareddau math 'bara menyn' a gyflawnwyd gan y gwasanaeth, nad yw'r cyhoedd, o bosib, yn gwbl ymwybodol ohonynt. Adleisiwyd hyn gan y Cynghorydd Michael, a ddywedodd y dylai fod diweddariadau bob chwe mis i bob Cynghorydd o awdurdodau partner i ategu hyn.
- Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd, gan ystyried yr heriau a'r galwadau ychwanegol ar y GRhR am ei wasanaethau oherwydd deddfwriaeth ychwanegol, sut y byddai'r GRhR yn mynd i'r afael â'r rhain ac yn pennu adnoddau ar eu cyfer. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y byddai angen proses flaenoriaethu ar waith i fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau newydd hyn gan na ellid ymestyn y gwasanaeth am gyfnod amhenodol. Byddai hyn yn cynnwys sgysiau ag awdurdodau partner am feysydd o bwys a rheoli disgwyliadau yn y dyfodol. Dim ond hyn a hyn y gallai'r GRhR ei wneud dan y cyfyngiadau cyllidebol ac ariannu cyfredol, oni bai bod cyllid ychwanegol yn dod i law gan y llywodraeth genedlaethol a chanolog.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Cydweithredol wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024-25 ac awdurdodi Prif Reolwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngorau partner eraill.
- (2) Nodi'r sefyllfa alldro nas archwiliwyd 2024-25

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r Cyngorau partner a'r Cydbwyllgor fodloni'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio.
- (2) Yn dilyn ystyriaeth ac ymwybyddiaeth Aelodau'r Cydbwyllgor o sefyllfa alldro nas archwiliwyd 2024-25.

(i) Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2025-26 (CAT) –

Nododd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, y broses y datblygwyd Cynllun Busnes drafft y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (GRhR) ar gyfer 2025-26 drwyddi.

Roedd Cynllun Busnes GRhR ar gyfer 2025-26 yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau ar lefel gorfforaethol pob un o'r awdurdodau partner, gyda phob un o'r camau gweithredu y bwriedir i'r GRhR eu cymryd fel rhan o hyn wedi'u nodi yn y Cynllun.

Roedd angen i'r Cynllun drafft gael ei gadarnhau gan y Pwyllgor Cydweithredol ac roedd yn rhan o broses adrodd flynyddol y Gwasanaeth Rheoli a Rheoli Risgiau a nodir yn y Cytundeb Gwaith ar y Cyd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Cydweithredol wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2025/26.
- (2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2025/26 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Nododd y Cytundeb Cydweithio (yng nghymal 14) y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn llunio Cynllun Busnes drafft o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli. Diben y Cynllun Busnes, fel y nodwyd gan y Cytundeb Cydweithio, oedd diweddarau'r wybodaeth yn y Cynllun Busnes blaenorol; a nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio

dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y Cytundeb Cydweithio ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ac, ar ôl ei gymeradwyo, câi hwn ei ddsbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig pob Awdurdod cyfranogol.

(2) Bydd awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi gwneud mân newidiadau, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Yn ogystal â lleihau'r baich ar y Cydbwyllgor, byddai'r dull hwn yn golygu y gellid gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion a gododd.

(j) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Gwasanaethau Rheolia
dol a Rennir 2025-26 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Masnachol (GRhR), wybod i'r Pwyllgor am waith y tîm Iechyd a Diogelwch a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer 2025/26.

Roedd Adran 18 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Cynhyrchwyd y Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch hwn mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw ac fe'i cynlluniwyd i hysbysu trigolion, cymuned fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro am y trefniadau y byddai gan y Cynghorau ar waith i reoleiddio Iechyd a diogelwch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor ar y Cyd

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2025/26.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2025/26 yn ôl yr angen.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Byddai hyn yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdod gorfodi dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chydymffurfio â chanllawiau statudol.